

cartrefi gwell, dyfodol disglair



Cynllun Aelodaeth Cyfranddalwyr Tai Ceredigion

Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH
T 0345 606 7654 E post@taiceredigion.org.uk

Mae cynnwys cymunedau yn elfen hanfodol o Tai Ceredigion. Mae Tai Ceredigion yn awyddus i gynnwys tenantiaid, lesddeiliaid a pherchnogion tai yn weithredol wrth iddo ddarparu gwasanaethau a llunio polisiau. Fel aelod o Tai Ceredigion, rydym yn gobeithio y byddwch yn fodlon gweithio gyda ni i'n helpu i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn ein cymunedau. Gallwch gymryd rhan gymaint neu gyn lleied ag y dymunwch, a cheir ystod o ffyrdd anffurfiol a ffurfiol o wneud hynny.

Rhesymau dros ymuno â Tai Ceredigion

- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Tai Ceredigion
- Dylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eich cartref a'ch cymuned
- Gweithio gyda Tai Ceredigion i nodi blaenoriaethau allweddol i wella eich cymuned
- Mynegi barn ynghylch sut y caiff arian ei wario i wella eich cymuned
- Dwyn Bwrdd Tai Ceredigion i gyfrif
- Dangos eich cefnogaeth i Tai Ceredigion, a dim rheidwydd i fynychu cyfarfodydd os nad ydych yn dymuno gwneud hynny

A allaf fod yn Aelod-gyfranddaliwr yn Tai Ceredigion?

Mae croeso i bob tenant, perchennog tŷ a lesddeiliad sy'n byw yng Ngheredigion fod yn aelod-gyfranddaliwr yn Tai Ceredigion, am £1. Gall pob cyfranddaliwr gael un gyfran, a bydd un gyfran yn gyfystyr ag un bleidlais.

Beth yw manteision bod yn Aelod-gyfranddaliwr yn Tai Ceredigion?

Fel Aelod o Tai Ceredigion, byddwch:

- Yn cydberchen Tai Ceredigion, ac yn chwarae rôl bwysig o ran dwyn Bwrdd Tai Ceredigion i gyfrif
- Yn gallu dewis i ba raddau yr ydych am gymryd rhan, ar lefel sy'n addas i'ch anghenion, eich amgylchiadau a'ch diddordebau, a byddwch yn gallu datblygu eich syniadau eich hun ar gyfer cymryd rhan
- Yn cael tystysgrif aelodaeth
- Yn gallu mynychu cyfarfodydd a fforymau'r Aelodau
- Yn cael eich gwahodd i gymryd rhan mewn fforymau a grwpiau
- Yn cael eich gwahodd i unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi, diwrnodau agored a chynadleddau perthnasol a gynhelir gan Tai Ceredigion
- Yn cael adroddiadau am berfformiad Tai Ceredigion
- Yn cael cyfle i ddatblygu grwpiau tenantiaid a phreswylwyr yn eich cymuned ac yn cael cymorth ariannol a chymorth staff i wneud hynny

Pwy na all fod yn Aelod-gyfranddaliwr yn Tai Ceredigion?

Ni allwch fod yn Aelod-gyfranddaliwr yn Tai Ceredigion:

- Os ydych dan 18 oed
- Os cawsoch eich diarddel fel cyfranddaliwr
- Os ydych yn aelod o staff Tai Ceredigion neu'n unigolyn o'r Awdurdod Lleol, oni cawsoch eich enwebu gan Gyngor Sir Ceredigion.

Ffurflen gais i gael bod yn aelod o Tai Ceredigion

Dylech lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd yn yr amlen radbost a ddarperir yn y pecyn hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ffurflen hon, mae croeso i chi ein ffonio ni ar **0345 606 7654**.

Manylion personol

Teitl (Mr / Mrs / Miss / Ms ac ati) _____ Ffôn (gartref) _____
 Enw(au) cyntaf _____ Ffôn (gwaith) _____
 Cyfenw _____ Ffôn symudol _____
 Dyddiad geni _____ Ebst _____
 Cyfeiriad _____ A ydych Yn denant
 _____ Yn breswlydd
 Côt post _____ Yn lesddeiliad

Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym am unrhyw anghenion penodol a allai fod gennych, e.e. anghenion arbennig o ran deiet, gwybodaeth mewn print bras, problemau symud, defnyddio cadair olwyn ac ati.

Sut y byddech yn hoffi cymryd rhan?

Trowch at y dudalen gefn i weld sut y gallwch gymryd rhan yn y broses o redeg Tai Ceredigion.

Eich llofnod

Hoffwn ddod yn Aelod o Tai Ceredigion Cyf

Llofnod

Dyddiad

Sut mae cymryd rhan gyda Tai Ceredigion

Mae sawl ffordd y gallwch gymryd rhan a dylanwadu ar y modd y caiff penderfyniadau eu gwneud gan Tai Ceredigion. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y gallwch chwarae rôl weithredol o safbwynt dylanwadu ar ddyfodol Tai Ceredigion. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, ticiwch y blwch (blychau) perthnasol ac anfonwch y ffurflen yn ôl yn yr amlen radbost.

Ffyrdd o gymryd rhan	Yr hyn y mae'n ei olygu	Amser/Ymdrech (5 seren = llawer, 1 seren = ychydig)	✓
Aelod o Tai Ceredigion	Cyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Tai Ceredigion a chael yr holl fanteision o fod yn Aelod.	*	
Fforwm Cartref y Tenantiaid	Grŵp o denantiaid sy'n methu â mynychu cyfarfodydd, sy'n barod i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori gan gynnwys arolygon ac adolygiadau polisi dros y ffôn, drwy'r post neu drwy e-bost.	*	
Tenant Allweddol	Rhywun sy'n cynrychioli ei ystad/bloc o fflatiau/cymuned leol. Gall fod yn aelod o'r Grŵp Monitro hefyd, ond bydd yno fel cyswllt rhwng y tenantiaid a Tai Ceredigion.	**	
Grwpiau Diddordeb Arbennig	Aelodau, staff ac Aelodau'r Bwrdd yn cydweithio mewn cyfres fer o gyfarfodydd i ddatblygu, adolygu a gwella'r modd y mae Tai Ceredigion yn darparu gwasanaethau penodol, e.e. gwaith atgyweirio, rhaglen welliannau ac ati.	**	
Grwpiau Ffocws	Grŵp o denantiaid a phreswylwyr sy'n cyfarfod ac yn trafod sut i wella'r modd y mae Tai Ceredigion yn darparu gwasanaethau.	**	
Fforwm Cyswllt y Tenantiaid	Cyfarfodydd bob chwarter, a gynhelir ar hyd a lled y sir i ymgynghori a rhoi gwybodaeth i bob tenant.	**	
Cymdeithasau/ Grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr	Grŵp o denantiaid / preswylwyr mewn cymunedau lleol, sy'n cyfarfod i drafod a nodi blaenoriaethau yn eu cymuned. Mae grantiau cychwyn, ynghyd â chymorth staff, ar gael i grwpiau sefydledig i dalu'r costau sy'n ymwneud â'u rhedeg.	**	
Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod	Grŵp o denantiaid mewn tai gwarchod, sy'n cyfarfod ac yn trafod materion sy'n ymwneud yn benodol â nhw, ac sy'n datblygu gwasanaethau'r dyfodol ar gyfer pobl hyn a thenantiaid tai gwarchod.	**	
Tenant-arolygwyr	Mae hwn yn wasanaeth sy'n galluogi tenantiaid i gymryd rhan weithredol drwy graffu ar y gwasanaethau a gânt. Maent yn cynnal asesiadau manwl o wasanaethau er mwyn eu gwella a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.	***	
Grŵp Monitro'r Tenantiaid	Mae'r grŵp hwn yn dwyn y Bwrdd i gyfrif ar ran tenantiaid a phreswylwyr, ac mae'n sicrhau bod Tai Ceredigion yn gwireddu'r holl addewidion yn y Ddogfen Gynnig i denantiaid.	****	